Statistical Article
Erthygl Ystadegol

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: Canllaw ar gyfer Dadansoddi Data Dangosyddion[1]

## Y canllawiau

Mae'r erthygl hon yn rhoi canllawiau ar gyfer dadansoddi data dangosyddion Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn cynnwys canllaw i ba ddangosydd sydd wedi'i gyhoeddi, sut i gael gafael arno, beth i'w wneud a pheidio â'i wneud wrth ddadansoddi, a dolenni i waith dadansoddi sydd eisoes wedi'i gwblhau. Cafodd data StatsCymru ychwanegol gyda rhai dangosyddion dethol wedi'u rhannu fesul oedran eu rhyddhau hefyd ar 1 Rhagfyr 2015, ynghyd ag erthygl ystadegol "Dadansoddiad ardal o amddifadedd plant 2014" yn seiliedig ar y data dangosyddion. Mae rhagor o wybodaeth am y data dangosyddion a dadansoddiadau perthnasol ar gael yma.

## Cynnwys


1. Cyflwyniad i MALIC ........ 2
2. Cael gafael ar Ddata Dangosyddion MALIC ........ 4
3. Data Dangosyddion ........ 6
4. Data Poblogaeth ........ 14
5. Data ar gyfer gwledydd eraill y DU ........ 15
6. Newidiadau i Ffiniau ACEHI ........ 16
7. Gair i Gall ........ 16
8. Dadansoddiadau Enghreifftiol ........ 18
9. Astudiaeth Achos ........ 20
10. Cynlluniau'r Dyfodol ........ 22

Nodiadau ar ddefnyddio erthyglau ystadegol ........ 23

Atodiad ........ 24



Dyddiad Cyhoeddi: 1 Rhagfyr 2015 (Diweddariad diwethaf 25 ebrill 2019)

Diweddariad Nesaf: Nid yn allbwn rheolaidd



Ystadegydd: Nia Jones, Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi

E-bost: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

Ffôn: Llinell Ymholiadau Cyffredinol 0300 025 5050

Twitter: www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru


1 Mae nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon

# 1. Cyflwyniad i MALIC

## Beth yw MALIC?

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol gan Lywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny sydd â'r crynoadau uchaf o fathau gwahanol o amddifadedd. Mae'n dod o dan faner Ystadegau Gwladol, ac yn cael ei baratoi gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

## Beth yw mynegai?

Grŵp o fesuriadau gwahanol wedi'u cyfuno'n un rhif yw mynegai. Y nod yw dangos newidiadau mewn amrywiadau cymhleth fel cynnyrch diwydiannol, prisiau neu amddifadedd yn yr achos yma. Yna, mae mynegai yn fodd i gymharu rhwng gwerthoedd gwahanol - sef, yn achos MALIC, y gymhariaeth rhwng ardaloedd bach (gweler isod).

Mae MALIC yn rhoi graddfa rhwng 1 (mwyaf difreintiedig) a 1,909 (lleiaf difreintiedig)

i'r holl ardaloedd bach yng Nghymru.

## Beth mae MALIC yn ei fesur?

Mae MALIC yn mesur amddifadedd lluosog ar sail ardal a hefyd yn mesur amddifadedd cymharol.

Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys hyd at wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd. Mae data pob maes yn cael ei gasglu o bob math o ddangosyddion gwahanol.

a) Incwm

b) Cyflogaeth

c) Iechyd

d) Addysg

e) Mynediad i wasanaethau

f) Diogelwch cymunedol

g) Amgylchedd ffisegol

h) Tai


## Beth yw data dangosyddion MALIC?

Mae'r meysydd yn seiliedig ar setiau o ddangosyddion; meintiau mesuradwy yw'r rhain sy'n rhoi darlun o amddifadedd ar gyfer pob maes (e.e. canran y bobl o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau cysylltiedig â chyflogaeth ar gyfer maes cyflogaeth; sgoriau Cyfnod Allweddol yn y maes addysg; y gyfradd marwolaethau o bob achos yn y maes iechyd, ac ati). Y data hwn sydd dan sylw yn y ddogfen hon. Mae'r diagram ar dudalen 3 yn amlinellu bob maes a dangosydd sydd ym MALIC 2014.

Caiff data dangosyddion ei ryddhau ochr yn ochr â phrif fynegai MALIC ar gyfer 2008, 2011 a 2014. Ers 2011, mae data dangosyddion dethol wedi'i ddiweddaru'n flynyddol, hyd yn oed yn y blynyddoedd lle na chaiff mynegai ei gyfrifo. Lle bo'n bosibl, caiff data dangosyddion ei gyhoeddi ar gyfer amrywiaeth o unedau daearyddol hefyd - mae manylion yn yr adran nesaf. Ar 1 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd data dangosyddion a oedd wedi'i rannu yn ôl oedran am y tro cyntaf.

Nod y setiau data blynyddol ar gyfer y Dangosyddion yw darparu gwybodaeth newydd i'r rheini sydd â diddordeb mewn dadansoddi amddifadedd ar gyfer ardaloedd a/neu grwpiau oedran, gan roi cyfle i ddadansoddi dros amser, gwneud cymariaethau rhwng ardaloedd sy'n mynd ymhellach na rhoi graddfa yn unig, ac ychwanegu dangosyddion defnyddiol eraill yn y dyfodol sydd heb eu cynnwys yn y prif Fynegai. Mae dadansoddi'r data dangosyddion yn aml wedi cael ei ystyried yn flaenoriaeth ymysg defnyddwyr ers i ni ddechrau cyhoeddi'r data manwl.

### Ffigur 1: Parthau a dangosyddion MALIC 2014




## Gwybodaeth bellach

Mae rhagor o wybodaeth gefndir am MALIC yn y ffynonellau canlynol:

- Tudalen we MALIC
- MALIC - Data dangosyddion blynyddol
- MALIC 2014 - Prif Adroddiad
- MALIC 2014 - Canllaw
- MALIC 2014 - Frequently Asked Questions (Saesneg yn unig)
- MALIC 2014 Technical Report (Saesneg yn unig)
- MALIC 2014: A guide to analysing deprivation in rural areas (Saesneg yn unig)
- MALIC 2014: Gwefan Rhyngweithiol
- MALIC: Gwybodaeth dechnegol ar gyfer yr holl ddangosyddion (Saesneg yn unig)

## 2. Cael gafael ar ddata dangosyddion MALIC


Mae'r holl ddata dangosyddion MALIC ar gael ar y dudalen we hyn.

Trefnir y data yn ôl yr ardaloedd daearyddol dan sylw. Ar gyfer data Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI), bydd angen i'r defnyddiwr benderfynu hefyd ar faes penodol o amddifadedd i'w weld, gan fod gormod o wybodaeth i allu dangos pob maes ar yr un pryd. Mae rhagor o wybodaeth am ardaloedd daearyddol yn Rhan 3.

Nodwch mai dim ond data dangosyddion 2014 ac ar ôl hynny sydd yn y dudalen we. Mae modd gweld data dangosyddion y blynyddoedd cynt (2008, 2011, 2012 a 2013) drwy bwyso'r tab 'Data dangosyddion cyn MALIC 2014' ar ochr chwith y dudalen.

### Trin data MALIC

Cyflwynir data MALIC yn yr hyn a elwir yn giwbiau StatsCymru. Dull ydynt o weld data mewn modd deinamig, fel bod y defnyddiwr yn gallu ad-drefnu'r data fel sy'n gweddu i'w anghenion. Byddwn yn defnyddio'r pedwerydd ciwb, 'Data dangosyddion yn ôl Awdurdod Lleol', i ddangos hyn (gweler y llun isod).




| Area | Incwm: amddifadedd incwm (canran y boblogaeth) | Cyflogaeth: budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth (canran y boblogaeth o oedran gweithio) | Iechyd: salwch cyfyngus hirdymor (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn nôl oedran a rhyw) (nifer fesul 100,000) | Iechyd: cyfradd marwolaeth o bob achos (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn nôl oedran a rhyw) (nifer fesul 100,000) | Iechyd: mynychder canser (wedi'i safoni yn anuniongyrchol yn nôl oedran a rhyw) (nifer fesul 100,000) | Iechyd: pwysau geni isel (genedigaethau unigol byw llai na 2.5 kg) (canran) | Addysg: Sgôr pwyntiau cyfartalog cyfnod allweddol 2 (sgôr pwyntiau) | Addysg: sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio cyfnod allweddol 4 (sgôr pwyntiau) | Addysg: absenoliaeth mynych (canran) | Addysg: lefel 2 cyfnod allweddol 4 cynhwysol (canran) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 17 | 13 | 22,714.7 | 1,049.7 | 582.5 | 5.6 | 84 | 328 | 9.92 | 51.77 |
| Ynys Môn | 17 | 13 | 20,753.5 | 995.4 | 573.3 | 5.6 | 85 | 339 | 9.25 | 52.96 |
| Gwynedd | 14 | 10 | 19,486.3 | 984.2 | 574.5 | 4.9 | 85 | 344 | 8.15 | 56.16 |
| Conwy | 16 | 13 | 20,623.8 | 981.5 | 578.6 | 5.4 | 84 | 340 | 8.01 | 54.37 |
| Sir Ddinbych | 18 | 14 | 21,785.7 | 1,058.4 | 617.3 | 6.1 | 84 | 336 | 8.42 | 54.05 |
| Sir y Fflint | 14 | 10 | 19,705.9 | 1,023.3 | 616.9 | 5.4 | 84 | 334 | 8.04 | 60.11 |
| Wrecsam | 16 | 12 | 21,490.1 | 1,070.9 | 603.6 | 5.7 | 84 | 327 | 8.25 | 50.03 |
| Powys | 12 | 9 | 18,840.4 | 928.9 | 540.6 | 4.8 | 85 | 345 | 7.67 | 59.70 |
| Ceredigion | 12 | 9 | 20,047.0 | 889.0 | 525.5 | 4.5 | 85 | 341 | 6.58 | 57.21 |
| Sir Benfro | 15 | 12 | 20,489.0 | 1,004.9 | 574.9 | 5.3 | 84 | 331 | 9.98 | 54.15 |
| Sir Gaerfyrddin | 16 | 13 | 23,700.4 | 1,065.2 | 566.3 | 5.5 | 84 | 332 | 10.89 | 53.62 |

Yn gyntaf, mae'r dudalen yn cyflwyno tabl syml i'r defnyddiwr; yr ardal (awdurdod lleol yn yr achos hwn) ar y chwith, gyda'r gwahanol ddangosyddion (neu oedran) ar draws brig y dudalen. Bydd y diwyg hwn yn addas i bob defnyddiwr yn ôl pob tebyg.

Fodd bynnag, mae cwymplenni ar frig y dudalen ar yr ochr chwith ar gyfer pob maes – fel y gallwch ddewis cuddio (dad-diciwch) neu ddangos (ticiwch) elfennau penodol – er enghraifft, i edrych ar y data ar gyfer Cymru gyfan, neu ddileu'r dangosyddion ar gyfer addysg. Mae'r botymau bach gyda'r symbolau plws a minws yn galluogi'r defnyddiwr i ehangu (+) neu gyfyngu (-) categorïau penodol hefyd.

Ar gyfer data MALIC hŷn, bydd elfen arall i'w gweld uwchben y tabl: Blwyddyn. Gellir defnyddio'r cwymp fotwm perthnasol i ddewis data unrhyw flwyddyn. Fel arall, gellir llusgo'r bocs hwn i'r tabl er mwyn dadansoddi'r data fesul blwyddyn.

Mae rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio StatsCymru a chiwbiau ar gael yma.

### Lawrlwytho data MALIC

Pan fydd yn hapus â threfn y dudalen, gall y defnyddiwr lawrlwytho'r data i ddilyn yr un patrwm o resi a cholofnau. I wneud hyn, dewiswch y botwm 'Allforio' uwchben y tabl. Bydd y ciwb yn rhoi dewis i gynnwys teitl a metadata'r tabl yn y lawrlwythiad, ynghyd â dewis o 3 fformat:

- Comma separated (.csv);
- Excel 2007-2010 (.xls);
- Statistical Data and Metadata Exchange (SDMX).

Yna gall y defnyddiwr gynnal dadansoddiad o'r data gan ddefnyddio pecyn meddalwedd o'i ddewis.

### Rhannu data MALIC

Pan fydd yn hapus â threfn y dudalen, gall y defnyddiwr gadw neu rannu dolen i'r data gyda'r un patrwm o resi a cholofnau. I wneud hyn, dewiswch y botwm 'Dolen' uwchben y tabl, copïwch yr URL a roddir, a'i gludo mewn e-bost neu ddogfen.

### Data agored

Mae Data Agored yn cyfeirio at y gynsail bod data ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall a bod modd i unrhyw un ei ddefnyddio. Mae llawer o'n ciwbiau StatsCymru bellach ar gael drwy wasanaeth OData y gellir ei ddefnyddio i ymholi'r data i ddiwallu anghenion y defnyddwyr. Gall OData gael ei ddadansoddi gan ddefnyddio ychwanegyn Power Query Microsoft Excel, Microsoft Power BI (Saesneg yn unig) neu gynhyrchion gwybodaeth busnes eraill. Darganfyddir ymholiadau gwasanaeth OData defnyddiol yn StatsCymru trwy sgrolio i lawr a defnyddio'r tab 'Data agored' ar waelod olygfa'r set ddata. Mae'r symbol canlynol, o'i weld wrth ymyl tabl rhestredig StatsCymru, yn dangos bod y set ddata ar gael drwy OData.

### Adnoddau MALIC Ychwanegol

Dim ond dadansoddi Data Dangosyddion MALIC sy'n cael sylw yn y ddogfen hon, ond mae gwybodaeth MALIC arall fel graddau amddifadedd yn cael ei chyhoeddi ar-lein hefyd, ynghyd a mapio rhyngweithio o barthau MALIC. Mae canllawiau ar ddefnyddio'r data hwn ar gael yn y prif ganllaw ar gyfer MALIC y sonnir amdano yn Adran 1.

## 3. Data dangosyddion

Mae amrywiaeth eang o ddata dangosyddion ar gael ar StatsCymru, gyda phob dangosydd yn perthyn i un o'r wyth maes amddifadedd a restrwyd yn gynharach yn y ddogfen.

### 3.1 Ardaloedd

Caiff holl ddata MALIC ei gyhoeddi ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI – Saesneg yn unig) a lefel Cymru, ond mae llawer o'r dangosyddion ar gael ar gyfer ardaloedd daearyddol eraill hefyd, yn cynnwys:

- Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf
- Degfedau o Amddifadedd (Ardaloedd o amddifadedd yn ôl y prif Fynegai MALIC, fel yr amlinellir ar gyfer MALIC 2014 ar dudalen 8 y WIMD Technical Report (Saesneg yn unig))
- Awdurdodau Lleol
- Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHI – Saesneg yn unig)
- Ardaloedd Adfywio Strategol
- Dosbarthiadau Gwledig/Trefol (Saesneg yn unig)
- Dosbarthiadau Gwledig/Trefol o fewn Awdurdodau Lleol
- Ardaloedd Adeiliedig (AA)[1]

Mae ffeiliau cyfeirio sy'n galluogi defnyddwyr i gysylltu gwahanol ardaloedd (e.e. cod post gydag ACEHI a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf) ar gael ar StatsCymru:

Gwefan StatsCymru: MALIC 2014

Gwefan StatsCymru: Cymunedau yn Gyntaf

Hefyd, mae modd gweld ardaloedd ar fap gan ddefnyddio adnodd rhyngweithiol MALIC.

### 3.2 Rhannu fesul oedran

Cafodd data dangosyddion a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2014 ei rannu yn ôl oedran a'i gyhoeddi ar StatsCymru ar 1 Rhagfyr 2015. Roedd y grwpiau oedran a ddefnyddiwyd ar gyfer pob dangosydd yn amrywio yn ôl pa mor ddefnyddiol oeddent a materion datgelu. Cafodd y data ei ryddhau ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd.

Roedd y dangosyddion dan sylw yn ymwneud â meysydd Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg a Thai ac yn deillio o ffynonellau amrywiol yn cynnwys Cyfrifiad 2011, data arolygon a data gweinyddol. Mae rhestr lawn o'r dangosyddion, ardaloedd a grwpiau oedran i'w gweld yn Nhablau 1 a 2 yn yr Atodiad.

Nid yw cwmpas y data a rannwyd yn ôl oedran a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr yn cynnwys rhai ardaloedd cyfunol sydd i'w gweld yn nhablau dangosyddion eraill, nac ychwaith ddangosyddion eraill y gellid eu rhannu yn ôl oedran (Mynychder canser, y Gyfradd marwolaethau, a Phwysau Geni Isel). Blaenoriaeth ein gwaith wrth ddadgyfuno'r dangosyddion oedd y data a fyddai'n fwyaf defnyddiol i ddefnyddwyr yn ein tyb ni, ond byddem yn croesawu adborth er mwyn llywio gwaith y dyfodol.

[1] Y diffiniad o AA a ddefnyddir i gyfrifo dangosyddion MALIC yw'r Israniadau Ardaloedd Adeiliedig (IAA) ffit orau gyda throthwy o 2000 o bobl.

Er nad yw rhaniadau oedran manwl ar gael cyn MALIC 2014, mae yna rywfaint o ddata dangosydd ar gyfer plant wedi ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r MALIC Mynegeion Plant 2008 a 2011, ar gael trwy StatsCymru fel y disgrifir yn adran 2.

### 3.3 Dangosyddion unigol

Mae'r isadrannau canlynol yn rhoi crynodeb o'r dangosyddion ym mhob maes, yn cynnwys a oes modd cymharu'r dangosyddion a gyhoeddwyd ochr yn ochr â MALIC 2014 â data blaenorol. Mae diffiniad mwy cyflawn o'r holl ddangosyddion ar gael yn yr Adroddiad Technegol (Saesneg yn Unig), a'r Gwybodaeth dechnegol ar pob dangosydd (Saesneg yn Unig).

Mae'r tablau yn yr Atodiad yn rhoi rhagor o wybodaeth. Mae Tabl 1 yn amlinellu'r dangosyddion ar gyfer pob maes a'r blynyddoedd cyhoeddi. Mae Tabl 2 yn amlinellu'r gwahanol ardaloedd y mae pob dangosydd ar gael ar eu cyfer ar gyfer pob blwyddyn. Mae Tabl 3 yn rhoi manylion cyfnod cyfeirio'r data sylfaenol ar gyfer pob dangosydd yn ôl y flwyddyn gyhoeddi. Mae Tabl 6 yn darparu cofnod o ddiwygiadau a wnaed i ddata dangosyddion MALIC StatsCymru o fis Awst 2015 ymlaen.

Nodwch hefyd mai nod ACEHI yw darparu ystadegau ar gyfer ardaloedd bach. Fodd bynnag, gydag ystadegau ar gyfer ardaloedd bach, mae tebygolrwydd uwch y gellir adnabod unigolion ar sail nodweddion arbennig. O ganlyniad, bu'n rhaid atal gwerthoedd ar gyfer rhai dangosyddion er mwyn osgoi hyn. Mae Tabl 4 yn yr Atodiad yn amlinellu'r dangosyddion lle bu'n rhaid cymryd camau i osgoi datgelu ar gyfer MALIC 2011 a 2014.

### Y maes incwm

Un dangosydd sydd yn y maes Incwm: canran y boblogaeth mewn amddifadedd incwm. Hyd at ddiweddariad 2015 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016), roedd tair elfen i'r dangosydd; hawlwyr budd-daliadau[2] cysylltiedig ag incwm (data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau AGPh), pobl sy'n derbyn credydau treth[3] (gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi), a cheiswyr lloches[4] a gynorthwyir (gan y Swyddfa Gartref). Mae'n adio nifer yr hawlwyr a phlant dibynnol ar gyfer y tair elfen at ei gilydd, yna'n rhannu'r rhif gan gyfanswm y boblogaeth breswyl.

Mae data dangosydd incwm 2016 a 2017 bellach yn cynnwys rhai hawlwyr Credyd Cynhwysol (CC), ers cyflwyno CC yng Nghymru fesul cam o 2014 ymlaen. Gwneir hawliadau ar lefel aelwydydd, ac mae'r data a ddefnyddir yn cynnwys pob unigolyn ar hawliad UC ac eithrio'r rhai sy'n "gweithio heb ofynion" (hynny yw, y mae eu henillion unigol neu enillion yr aelwyd yn uwch na'r lefel lle mae amodau'n (Saesneg yn unig) berthnasol). Mae hyn waeth a yw'r hawliad yn cael ei dalu yn y cyfnod a roddir (gallai rhesymau dros ostwng taliadau gynnwys unigolyn o fewn hawliad yr aelwyd sydd ag incwm arall, sancsiynau, ad-dalu tal ymlaen llaw ac ati).

Ar gyfer data dangosydd 2017, daeth yn bosibl cynnwys plant a oedd yn ddibynyddion i hawlwyr CC, lle mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn set ddata "Children in out-of-work-benefit households" (Saesneg yn unig) AGPh. Mae niferoedd hawlwyr CC a'u dibynyddion yn nata amddifadedd incwm 2017 yn gymharol fach (o dan 5 y cant o'r cyfanswm)[5]. Ar y cychwyn, roedd y cyflwyniad yn cynnwys achosion anghymhleth

---

[2] Yn cynnwys Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, a Chredyd Pensiwn
[3] Yn cynnwys Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith
[4] Y rheini sy'n cael eu cynorthwyo o dan Adran 95
[5] Mae ystadegau ar Gredyd Cynhwysol ar gael ar-lein (Saesneg yn unig).

ar gyfer oedolion sengl heb blant dibynnol, ac ar gyfer y cyfnod 2016-17 roedd dal yn gymharol ond ychydig (yn debygol o fod yn llai na 1,000) o blant a oedd yn ddibynyddion o hawlwyr CC yng Nghymru.

Ni wnaethom ni gynnwys hawlwyr CC yn nata dangosyddion 2015. Roedd nifer fach o hawlwyr CC di-waith sengl, newydd yn Ardal Canolfan Waith Shotton (Gogledd Cymru) o fis Mai 2014 ymlaen yn cael eu cynnwys yn niwedd y cyfnod cyfeirio ar gyfer dangosyddion 2015. Felly, efallai y bydd y ffaith bod hawlwyr CC newydd (a fyddai yn flaenorol wedi symud ymlaen i Lwfans Ceisio Gwaith) wedi'u hepgor yn helpu i esbonio'r gostyngiadau yn nata dangosyddion 2015 ar gyfer ACEHI yn ardal Shotton. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd yr effaith hon yn un fach o gymharu â newidiadau eraill i'r system les.

Cyhoeddir y dangosydd incwm ar gyfer pob blwyddyn. Ni chafwyd unrhyw newidiadau ym methodoleg y maes incwm rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014. Fodd bynnag, roedd newidiadau i'r system les yn golygu bod trothwyon a meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhai budd-daliadau wedi newid. Ers diweddariad 2016, mae hefyd yn cynnwys rhai hawlwyr Credyd Cynhwysol (ac yn 2017, eu dibynyddion) fel yr amlinellir uchod. O ganlyniad, nid oes modd cymharu'r data dangosydd dros amser a bod yn fanwl gywir.

### Y maes cyflogaeth

Un dangosydd sydd yn y maes Cyflogaeth: canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig â gwaith, gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Hyd at ddiweddariad 2015 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016), fe'i cyfrifwyd drwy gyfrif yr unigolion (h.y. dim ond unwaith y caiff pobl sy'n hawlio mwy nag un budd-dal eu cyfrif) sydd â hawl i gael budd-dal analluogrwydd (sydd wedi disodli'r Lwfans Anabledd Difrifol), y Lwfans Ceisio Gwaith, a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mynegir y dangosydd hwn fel canran o'r boblogaeth oedran gweithio ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI).

Ers cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (CC) yng Nghymru fesul cam o 2014 ymlaen, mae data dangosydd incwm 2016 a 2017 bellach yn cynnwys pobl ar CC heb nod cyflogaeth (Saesneg yn unig). Mae nifer yr hawlwyr CC yn nata amddifadedd cyflogaeth 2016 a 2017 yn gymharol isel (ychydig yn llai na 2 a 7 y cant o'r cyfanswm, yn y drefn honno)[6] ac, ar y cychwyn, roedd y cyflwyniad yn cynnwys achosion anghymhleth ar gyfer oedolion sengl heb blant dibynnol. Byddwn yn parhau i adolygu sut rydym yn cynnwys hawlwyr CC a'u dibynyddion ar gyfer diweddariadau blynyddol yn y dyfodol, gan geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl cyn cynnal adolygiad llawn cyn y flwyddyn Mynegai nesaf (2019).

Ni wnaethom ni gynnwys hawlwyr CC yn nata dangosyddion 2015. Roedd nifer fach o hawlwyr CC di-waith sengl, newydd yn Ardal Canolfan Waith Shotton (Gogledd Cymru) o fis Mai 2014 ymlaen yn cael eu cynnwys yn niwedd y cyfnod cyfeirio ar gyfer dangosyddion 2015. Felly, efallai y bydd y ffaith bod hawlwyr CC newydd (a fyddai yn flaenorol wedi symud ymlaen i Lwfans Ceisio Gwaith) wedi'u hepgor yn helpu i esbonio'r gostyngiadau yn nata danosyddion 2015 ar gyfer ACEHI yn ardal Shotton. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd yr effaith hon yn un fach o gymharu â newidiadau eraill i'r system les.

Ers MALIC 2014, nid yw pobl sy'n cymryd rhan yn y Fargen Newydd yn cael eu cynnwys yn y maes hwn bellach. Disodlwyd y rhaglen hon gan y Rhaglen Waith, lle mae gofyn i bawb sy'n cymryd rhan fod yn hawlio naill ai'r Lwfans Ceisio Gwaith neu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'r ddau fudd-dal hwn wedi'u cynnwys yn y dangosydd yn barod. Yn ogystal, mae newidiadau i'r system les yn golygu bod trothwyon a meini prawf cymhwysedd rhai budd-daliadau wedi newid. Ers diweddariad 2016, mae hefyd yn cynnwys

[6] Mae ystadegau ar Gredyd Cynhwysol ar gael ar-lein (Saesneg yn unig).

rhai hawlwyr Credyd Cynhwysol fel yr amlinellir uchod. O ganlyniad, er bod y dangosydd cyflogaeth yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn, nid oes modd cymharu'r data dros amser a bod yn fanwl gywir.

### Y maes iechyd

Mae'r maes iechyd yn cynnwys pedwar dangosydd:

- Mynychder canser
- Salwch hirdymor cyfyngus
- Y gyfradd marwolaethau
- Pwysau geni isel

### Mynychder canser (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)

Mae'r dangosydd hwn yn cyfrif pob mathau o ganser yn cynnwys pob achos malaen, ac eithrio canser y croen nad yw'n felanoma (data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru). Cyfartaledd dros ddeng mlynedd yw'r dangosydd hwn, a chaiff ei gyhoeddi ar gyfer pob blwyddyn. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu data dros amser a bod yn fanwl gywir, oherwydd mae'r dechneg safoni anuniongyrchol yn golygu defnyddio'r data diweddaraf ar strwythurau poblogaeth i Gymru i gyfrifo ffigurau am ardaloedd bach.

### Salwch hirdymor cyfyngus (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)

Mae Salwch Hirdymor Cyfyngus yn cwmpasu unrhyw salwch, problem iechyd neu anabledd hirdymor sy'n cyfyngu ar allu i wneud gweithgareddau bob dydd neu weithio. Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad, ac nid oes modd ei gymharu dros amser oherwydd newidiadau i'r cwestiwn yn y Cyfrifiad rhwng 2001 a 2011, ac oherwydd bod y data wedi'i safoni'n anuniongyrchol.

### Y gyfradd marwolaethau (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)

Cyfartaledd dros 10 mlynedd ar gyfer y gyfradd marwolaethau o bob achos yw'r dangosydd hwn, ac mae'n defnyddio data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fe'i cyhoeddir ar gyfer pob blwyddyn, ond nid oes modd ei gymharu dros amser a bod yn fanwl gywir, oherwydd y defnydd o safoni anuniongyrchol.

Mae'r dangosyddion uchod yn cyfrif unigolion unigryw (h.y. cafodd dyblygiadau eu dileu), fel bod modd adio'r dangosyddion at ei gilydd a'u mynegi fel cyfradd fesul 100,000 yr ACEHI. Ni fu unrhyw newidiadau i'r fethodoleg yn y maes iechyd rhwng MALIC 2011 a MALIC 2014.

### Pwysau geni isel

Y dangosydd hwn yw canran y genedigaethau sengl byw ("singleton") lle mae'r pwysau geni yn llai 2.5kg, ac fe'i cyfrifir fel cyfartaledd dros 10 mlynedd, gan ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyhoeddir y dangosydd hwn bob blwyddyn ac mae modd ei gymharu dros amser.

## Y maes addysg

Mae’r maes addysg yn cynnwys chwe dangosydd (a gyfrifir gan Lywodraeth Cymru oni nodir yn wahanol):

- Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Sgôr pwyntiau wedi’i chapio Cyfnod Allweddol 4
- Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 Cynwysedig
- Pobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd ymlaen i Addysg Uwch (data gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr)
- Oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau (data’r Cyfrifiad)
- Absenoliaeth mynych

Roedd tri o’r chwe dangosydd ym maes addysg MALIC 2014 yn bresennol ym MALIC 2011:

- Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Pobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd ymlaen i Addysg Uwch
- Oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau

O’r tri dangosydd hwn, mae manyleb oedran y dangosydd oedolion heb unrhyw gymwysterau wedi newid rhyw fymryn ers MALIC 2011, oherwydd bod oed pensiwn y wladwriaeth ar gyfer menywod wedi codi o 59 i 64 oed. Nid yw’r ddau ddangosydd arall wedi newid.

Mae dangosydd Sgôr Pwyntiau Cymedrig Cyfnod Allweddol 3 wedi’i ddileu ers MALIC ac mae dangosydd Sgôr Pwyntiau Ehangach Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 wedi’i ddisodli gan ddau ddangosydd Cyfnod Allweddol 4 ym MALIC 2014. Mae’r ddau ddangosydd absenoliaeth ym MALIC 2011 wedi’u disodli gan un dangosydd Absenoliaeth Mynych sy’n cwmpasu Ysgolion Uwchradd a Chynradd.

Gwnaed gwelliant bach i’r fethodoleg ar gyfer y dangosydd Absenoliaeth Mynych ar gyfer cyhoeddiad data dangosyddion 2016. Yn flaenorol (ar gyfer 2015), nid oedd data ar ddisgyblion o Gymru mewn ysgolion pob oed Saesneg wedi’i gynnwys yn y dangosydd ond, o 2016 ymlaen, mae’r nifer gymharol fach o ddisgyblion sy’n cael eu heffeithio bellach wedi’u cynnwys yn y dangosydd.

O gyhoeddiad 2017, bydd y dangosydd sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 dim ond yn cynnwys gwybodaeth am ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru, gan y bydd disgyblion sy'n byw yng Nghymru ond yn mynd i ysgolion Saesneg dim yn cael yr un asesiad bellach.

## Y maes mynediad i wasanaethau

Mae’r Maes Mynediad i Wasanaethau wedi newid ei ddangosyddion ar gyfer MALIC 2014. Mae amlinelliad o’r dangosyddion sy’n cyfrannu at y maes hwn isod.

- Cyfartaledd amser teithio preifat i siop fwyd (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i feddygfa meddyg teulu (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i ganolfan hamdden (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i lyfrgell gyhoeddus (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i orsaf betrol (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i fferyllfa (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i swyddfa’r post (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i ysgol gynradd (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio preifat i ysgol uwchradd (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i siop fwyd (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i feddygfa meddyg teulu (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i ganolfan hamdden (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i lyfrgell gyhoeddus (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i fferyllfa (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i swyddfa’r post (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i ysgol gynradd (munudau)
- Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i ysgol uwchradd (munudau)

Mae’r dangosyddion a ddefnyddiwyd cyn MALIC 2014 yn Nhabl 1 yr Atodiad, ac nid yw’r dangosyddion wedi’u cyfrifo ar gyfer blynyddoedd rhwng mynegeion. Mae’r Adroddiad Technegol hefyd yn dangos union fanyleb pob un o’r dangosyddion uchod. Mae newidiadau i’r maes hwn ar gyfer 2014 yn cynnwys rhoi ffigurau ar gyfer

fferyllfeydd a gorsafoedd petrol am y tro gyntaf, ynghyd a chyfrifiadau i bob gwasanaeth drwy drafnidiaeth gyhoeddus. Bu dileu amseroedd teithio at ddeintyddion y GIG a nodau trafnidiaeth. Yn ogystal, mae amserau teithio’n cael eu mesur i’r pwynt gwasanaeth agosaf ar gyfer pob dangosydd, yn hytrach na’r 10 pwynt gwasanaeth agosaf. Oherwydd hyn, nid oes modd cymharu MALIC 2014 â MALIC 2011.

## Y maes diogelwch cymunedol

Mae'r Maes Diogelwch Cymunedol yn ystyried amddifadedd mewn perthynas â byw mewn cymuned ddiogel. Mae chwe dangosydd yn y maes diogelwch cymunedol ac maent wedi'u hamlinellu isod. Lluoedd Heddlu Cymru yw ffynhonnell y dangosyddion (oni nodir yn wahanol) ac maent yn cynnwys:

- Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu
- Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodir gan yr heddlu
- Lladrad a gofnodir gan yr heddlu
- Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu
- Tanau (Llywodraeth Cymru)

Ers MALIC 2011, mae dangosyddion Canran y Troseddwyr Ifanc a Chanran y Troseddwyr sy'n Oedolion wedi'u disodli gan y dangosydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gofnodir gan yr Heddlu. O gymharu â MALIC 2011, mae'r dangosyddion Lladrad, Troseddau Treisgar a Bwrgleriaeth a Gofnodir gan yr Heddlu wedi newid ar gyfer MALIC 2014 gyda dileu'r boblogaeth weithio nad yw'n breswyl. Mae mwy o wybodaeth yn yr adran gefndir ar dudalennau gwe MALIC.

Mae cyflwyno'r dangosydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gofnodir gan yr Heddlu yn golygu nad oes modd cymharu'r dangosydd hwn â dangosyddion MALIC 2011 (Canran y Troseddwyr Ifanc a Chanran y Troseddwyr sy'n Oedolion). Mae modd cymharu pum dangosydd arall maes Diogelwch Cymunedol MALIC 2014 gyda MALIC 2011.

Mae dangosyddion 2016 yn dangos cynnydd yng nghyfradd droseddu treisgar ledled Cymru ers y diweddariad diwethaf ar gyfer y dangosydd hwn, yn 2014. Gellir esbonio'r cynnydd hwn yn rhannol gan welliannau mewn arferion cofnodi'r heddlu, yn arbennig mewn perthynas â throseddau trais yn erbyn y person. Esbonnir hyn ymhellach yn yr allbwn ONS 'Crime in England and Wales: year ending Mar 2016' (Saesneg yn unig), sydd yn datgan:

> *"These increases need to be seen in the context of the renewed focus on the quality of crime recording by the police, in light of the inspections of forces by Her Majesty's Inspectorate of Constabulary (HMIC), the Public Administration Select Committee (PASC) inquiry into crime statistics and the UK Statistics Authority's decision to remove the National Statistics designation from police recorded crime statistics. This renewed focus is thought to have led to improved compliance with the National Crime Recording Standard (NCRS), leading to the recording of a greater proportion of crimes coming to the attention of the police."*

## Y maes amgylchedd ffisegol

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n darparu'r data, a'r arbenigedd technegol cysylltiedig, ar gyfer y maes hwn. Mae tri is-faes yn y maes Amgylchedd Ffisegol: Ansawdd Aer, Perygl o Lifogydd, ac Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol. Mae'r is-faes Ansawdd Aer wedi'i rannu'n ddau ddangosydd: Crynodiadau Aer ac Allyriadau Aer. Mae ambell i newid technegol wedi'u gwneud i'r dangosyddion Crynodiadau Aer ac Allyriadau Aer ers MALIC 2014 (mae manylion yn yr Adroddiad Technegol) ond mae modd eu cymharu â MALIC 2011 yn fras.

## Y maes tai

Pwrpas y maes tai yw mesur amddifadedd yn nhermau diffyg tai digonol sy'n deillio o'u cyflwr ffisegol, trefniadau byw neu faint o dai sydd ar gael. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n darparu'r data ar gyfer y maes hwn fel rhan o Gyfrifiad 2011. Oherwydd diffyg data priodol, caiff y maes tai ei fesur drwy ddau ddangosydd: cyfran y bobl sy'n byw mewn cartrefi gorlawn, a chyfran y bobl sy'n byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Nid oes modd cymharu'r dangosydd canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi gorlawn (mesur ystafelloedd gwely) a ddefnyddir ym MALIC 2014 â MALIC 2011 oherwydd defnyddiwyd dangosydd yn seiliedig ar aelwydydd gorlawn (mesur ystafelloedd). Roedd dangosydd MALIC 2011 yn hepgor pob tŷ myfyrwyr ond mae dangosydd MALIC 2014 yn eu cynnwys.

Mae modd cymharu'r dangosydd canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi heb wres canolog â MALIC 2011. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod geiriad cwestiwn y Cyfrifiad sy'n ymwneud â'r dangosydd hwn wedi newid rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011. I gael rhagor o wybodaeth am natur gymaradwy'r ddau gyfrifiad hwn, gweler y 2011-2001 Census Questionnaire Comparability Report (Saesneg yn unig).

## 4. Data poblogaeth

Mae llawer o'r dangosyddion MALIC yn cael eu cyflwyno fel cyfradd, boed yn ganran, fesul cant neu fesul can mil. Er mwyn cyfrifo'r cyfraddau hyn, defnyddir ystod o seiliau poblogaeth fel enwaduron. Mae'r prif rai wedi'u hamlinellu isod ynghyd â gwybodaeth am ble y gellir dod o hyd i ddata ar eu cyfer.

### Cyfrifiad 2011

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell fwyaf cyflawn o wybodaeth am y boblogaeth. Dyma'r unig arolwg sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan, ac mae'n unigryw oherwydd mae'n cynnwys pawb ar yr un pryd ac yn gofyn yr un cwestiynau craidd ym mhob man. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws cymharu gwahanol rannau o'r wlad. Fodd bynnag, oherwydd ei faint, dim ond bob deng mlynedd y cynhelir y Cyfrifiad.

Mae'r cyfrifiad mwyaf diweddar yn rhoi amcangyfrifon o nodweddion pob unigolyn a phob aelwyd yn y DU ar ddiwrnod y cyfrifiad, 27 Mawrth 2011. Mae'r cyfrifiad yn rhoi ystadegau o lefel genedlaethol i lefel leol ar gyfer y nodweddion hyn, yn cynnwys ardaloedd llai fel y rheini a ddefnyddir ar gyfer MALIC.

Mae peth o'r data o Gyfrifiad 2011 ar gael ar wefan StatsCymru.

Mae yna lawer o wybodaeth am Gyfrifiad 2011 ar gael ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae ystod fwy cyflawn o wybodaeth ar gael ar wefan NOMIS (Saesneg yn unig) sy'n galluogi'r defnyddiwr i chwilio'r data ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd a dangosyddion.

### Amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn paratoi amcangyfrifon o boblogaeth breswyl Cymru a Lloegr, sydd yn rhoi cyfrif stoc o'r bobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr, rhanbarthau Lloegr ac ardaloedd awdurdodau lleol, a chyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn yn ôl oedran a rhyw, fel y mae ar 30 Mehefin bob blwyddyn. I sicrhau cysondeb, caiff amcangyfrifon canol-blwyddyn o boblogaeth Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) eu cyfyngu i amcangyfrifon Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG) sydd, yn eu tro, wedi'u cyfyngu i amcangyfrifon awdurdodau lleol.

Mae amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach ar gyfer ACE rhwng canol 2001 a chanol 2013 wedi'u paratoi ar sail ffiniau cyfrifiad 2011. Roedd peth o'r data dangosyddion ym MALIC 2014 yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach ar gyfer canol 2012. Ar gyfer rhai dangosyddion, cafodd y grŵp poblogaeth perthnasol ei ddiffinio gan oedran (e.e. ar gyfer y maes cyflogaeth, defnyddiwyd y grŵp oedran 'oedran gweithio').

Gellir gweld amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach ar gyfer yr holl ACEHI yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd o ganol 2001 ymlaen yn ôl grŵp oedran ar wefan StatsCymru.

Mae amcangyfrifon manylach, fesul pob oedran penodol (hyd at 89 oed, yna maent yn dod o dan 90+ oed), ar gael ar wefan yr ONS.

### Data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Cyfrifiad blynyddol o'r disgyblion yn holl ysgolion Cymru, yn cynnwys disgyblion nad ydynt o oedran ysgol statudol (h.y. 5-16 oed), yw'r CYBLD. Mae'n cynnwys ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac annibynnol ac mae'n seiliedig ar y rhai oedd wedi cofrestru ar ddiwrnod cyfrifiad ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Caiff llawer o'r dangosyddion ar gyfer y maes addysg eu cyfrifo gan ddefnyddio data CYBLD ar gyfer y grŵp oedran perthnasol. Mae data CYBLD wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran, rhyw, ysgol, a ydynt yn rhan-amser neu'n amser llawn, awdurdod lleol ac etholaeth ar gael ar wefan StatsCymru.

## 5. Data ar gyfer gwledydd eraill y DU

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn paratoi mynegeion amddifadedd hefyd. Mae'r dull a ddefnyddir yn debyg i un MALIC ond mae yna wahaniaethau ym methodoleg fanwl pob un o'r mynegeion. Fel gyda MALIC, gellir cael data ar gyfer y dangosyddion ym mhob mynegai. Byddai'n ddoeth darllen y nodiadau, y diffiniadau a'r wybodaeth gysylltiedig ar gyfer pob set ddata i wirio a oes modd ei chymharu â data MALIC.

### Lloegr

Gellir gweld mynegeion amddifadedd diweddaraf Lloegr drwy'r ddolen ganlynol (Saesneg yn unig), yn cynnwys dangosyddion sylfaenol ac enwaduron ar gyfer y boblogaeth.

### Yr Alban

Gellir gweld mynegai amddifadedd lluosog diweddaraf yr Alban drwy'r ddolen ganlynol (Saesneg yn unig), yn cynnwys dangosyddion sylfaenol ac enwaduron ar gyfer y boblogaeth.

### Gogledd Iwerddon

Gellir gweld mynegai amddifadedd lluosog diweddaraf Gogledd Iwerddon drwy'r ddolen ganlynol (Saesneg yn unig), yn cynnwys dangosyddion sylfaenol ac enwaduron ar gyfer y boblogaeth.

## 6. Newidiadau i Ffiniau ACEHI

### Uned ddaearyddol

Yr ardaloedd daearyddol a ddefnyddir i gyfrifo MALIC 2014 yw'r 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Defnyddiwyd ACEHI fel uned ddaearyddol ym MALIC 2005, 2008 a 2011, a chawsant eu cynllunio er mwyn cyflwyno adroddiadau ar ystadegau ardaloedd bach. Mae ACEHI hefyd yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir gan dair gwlad arall y DU ar gyfer eu mynegeion nhw.

### Newidiadau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011

Nod y ddaearyddiaeth ystadegol a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad yw nad yw ffiniau yn newid yn sylweddol rhwng cyfrifiadau. Er hynny, mae ffiniau rhai ACEHI yn cael eu diwygio ar ôl bob Cyfrifiad, er mwyn ystyried newidiadau yn y boblogaeth. MALIC 2014 fydd y mynegai cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r ffiniau diwygiedig yn sgil Cyfrifiad 2011. Yng Nghyfrifiad 2001, roedd 1,896 o ACEHI - mae 49 wedi dod i ben erbyn hyn, a 61 o rai newydd wedi'u creu.

Cyflwynwyd newidiadau i ffiniau ACEHI ar sail y canlynol:

- roedd y boblogaeth yn rhy fawr, felly rhannwyd yr AGEHI yn ddwy ardal neu fwy;
- roedd y boblogaeth yn rhy fach, felly cyfunwyd AGEHI gydag un arall gyfagos; neu
- mae'r boblogaeth wedi newid mewn ffordd gymhleth, felly bu cyfuniad o'r ddwy sefyllfa uchod.

Mewn rhai achosion, bu newidiadau yn dilyn yr Ymgynghoriad ar Ganlyniadau Daearyddol a gynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2010. Lle'r oedd ACEHI wedi newid, cafodd yr hen god ei ddileu a dynodwyd un newydd yn ei le. Er hwylustod, neilltuwyd enwau Cymraeg a Saesneg i bob cod AGEHI. Mae enw pob AGEHI wedi'i bennu gan yr Awdurdod Lleol perthnasol.


Ym MALIC 2014, roedd 1,846 AGEHI na newidiodd ffiniau ers MALIC 2011, 61 AGEHI gyda ffiniau oedd yn ganlyniad i uno gydag neu wahanu oddi wrth AGEHI gyfagos a 12 AGEHI gyda ffiniau a grëwyd o newidiadau mwy cymhleth. Rhoddir crynodeb o'r newidiadau i ffiniau ACEHI yn nhabl 5 o'r Atodiad.

### Newidiadau yn nyraniad cod post i ACEHI

Mae data ar gyfer rhai dangosyddion yn cael eu cynhyrchu o ddata godau post sydd wedi'u mapio i ACEHI gan ddefnyddio cyfeirnod grid y canolfan pwysedig (yn ôl y boblogaeth) o'r cod post (a elwir yn "ffit orau"). Felly caiff codau post eu dyrannu i ACEHI lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth o'r cod post hwnnw yn disgyn. Mae angen y dull ffit orau hwn gan fod codau post weithiau wedi'u rhannu rhwng dau neu fwy o ACEHI. Yn gynnar yn 2016, neilltuwyd rhai codau post i ACEHI gwahanol yn dilyn gwelliannau i ddyraniad cyfeirnodau grid gan yr Arolwg Ordnans. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y newidiadau hyn wedi arwain at newidiadau amlwg yn y data, ond mewn rhai achosion bydd y newidiadau yn fwy amlwg. Er enghraifft, efallai y bydd cyfraddau marwolaeth wedi'u heffeithio arnynt yn fwy os yw cartref gofal mewn cod post sy'n newid ACEHI.

## 7. Gair i Gall

Mae'r darn canlynol o'r ffeithlun o ganllaw MALIC yn dangos y rheolau wrth ddadansoddi data graddfa MALIC:




Fodd bynnag, mae'r rheolau'n wahanol yn achos data dangosyddion.

### Cymariaethau daearyddol

✓ GALLWCH gymharu data rhwng ardaloedd gwahanol, e.e. rhwng un ardal Cymunedau yn Gyntaf ac un arall.

✘ PEIDIWCH ag anghofio am newidiadau i'r ardaloedd – e.e. ni fydd modd cymharu rhai ACEHI dros amser os yw eu ffiniau wedi newid.

✘ PEIDIWCH anwybyddu'r effaith gall presenoldeb grwpiau poblogaeth penodol ei gael ar wahanol feysydd, ee myfyrwyr.

### Cymharu dros amser

✓ GALLWCH gymharu dangosydd dros amser, OND …

✘ PEIDIWCH ag anwybyddu newidiadau i ddiffiniadau dangosyddion.

✘ PEIDIWCH ag anwybyddu newidiadau i ffiniau daearyddol.

✘ PEIDIWCH ag anghofio gwirio am amrywiadau rhwng blynyddoedd sy'n cael eu hachosi gan niferoedd bach naill ai yn y cyfrif ar gyfer y dangosydd neu'r boblogaeth sylfaen.

### Cymharu dangosyddion

✓ GALLWCH gymharu gwahanol ddangosyddion – e.e. perfformiad amrywiaeth o ddangosyddion dros amser neu o fewn ardal benodol.

✘ PEIDIWCH ag anghofio gwirio pa gyfeiriad sy'n cael ei ystyried yn gadarnhaol - e.e. mae sgôr cyfartalog uwch ar gyfer CA2 yn beth da, ond mae sgôr uwch ar gyfer absenoliaeth mynych yn beth negyddol.

✘ PEIDIWCH ag anghofio gwneud yn siŵr eich bod chi'n gwybod beth yn union mae pob dangosydd yn ei fesur.

### Cymharu yn erbyn data amddifadedd

- ✓ GALLWCH gymharu data yn erbyn data amddifadedd cyffredinol MALIC.
- ✓ GALLWCH ddefnyddio daearyddiaeth degfedau o amddifadedd i wneud hyn os yw ar gael.

- ✘ PEIDIWCH ag anghofio bod y dangosyddion eu hunain yn cyfrannu at y mesur cyffredinol hwn o amddifadedd (gyda phwysoliad gwahanol ar gyfer pob maes a dangosydd).
- ✘ PEIDIWCH ag anghofio'r cyfnod cyfeirio ar gyfer y data amddifadedd.
- ✘ PEIDIWCH â chymharu data'r Mynegai dros amser.

### Cymharu rhwng grwpiau oedran

- ✓ GALLWCH gymharu gwerthoedd dangosyddion rhwng y gwahanol grwpiau oedran.

- ✘ PEIDIWCH ag anghofio bod gwahanol ddangosyddion yn defnyddio grwpiau oedran gwahanol.
- ✘ PEIDIWCH ag anghofio gwirio am amrywiadau rhwng blynyddoedd sy'n cael eu hachosi gan niferoedd bach naill ai yn y cyfrif ar gyfer y dangosydd neu'r boblogaeth sylfaen (gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol ar gyfer bandiau oedran cul).

## 8. Dadansoddiadau enghreifftiol

Mae yna rai ffynonellau o ddadansoddiadau o ddata dangosyddion MALIC sy'n bodoli'n barod y gellir eu defnyddio fel enghreifftiau. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr Astudiaeth Achos a gyflwynir ym Mhennod 8 yr erthygl hon. Welsh Index of Multiple Deprivation 2014: A guide to analysing deprivation in rural areas - Revised (Saesneg yn unig)

Cyhoeddwyd yr erthygl hon ochr yn ochr â MALIC 2014, ac mae'n bwrw golwg ar ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig. Yn benodol, mae Penodau 8 a 9 yn edrych ar ddadansoddi data dangosyddion Mynediad i Wasanaethau ac Incwm. Analysis of the Access to Services Domain in the WIMD by type of settlement (Saesneg yn unig) (WIMD Indicators 2014)

**Mae'r dadansoddiad hwn yn dadansoddi data MALIC er mwyn edrych ar ardaloedd sydd â phroblemau mynediad i wasanaethau o bosibl. Mae'n edrych ar y graddfeydd amddifadedd ar gyfer y maes Mynediad i Wasanaethau a'r amseroedd teithio a ddefnyddir i lunio'r graddfeydd.**

Dadansoddiad Ardal o Amddifadedd Plant (Dangosyddion MALIC 2014)

Ar 1 Rhagfyr 2015 cyhoeddwyd Erthygl Ystadegol a oedd yn dangos sut mae amddifadedd yn amrywio ar gyfer plant ledled Cymru, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion MALIC ar gyfer y grwpiau oedran perthnasol.

### Sut i ddadansoddi yn ôl grŵp amddifadedd

Er mwyn crynhoi a dadansoddi data sy'n cynrychioli 1909 AGEHI, gellir defnyddio dulliau ystadegol i grwpio'r data. Er enghraifft, gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio degraddau, cwintelau, neu grwpiau amddifadedd MALIC (10 y cant uchaf, 10 i 20 y cant, 20 i 30 y cant, 30 i 50 y cant, 50 y cant isaf o ACEHI). Gellir defnyddio'r dull hwn ar gyfer y mynegai'n gyffredinol, y meysydd neu'r dangosydd unigol sydd dan sylw. Yn 2016, cafodd taenlen MALIC o sgoriau parthau ei diwygio i gynnwys degraddau, chwartelau a chwintelau 2014 MALIC, gan ddefnyddio'r sgôr MALIC cyffredinol. Er enghraifft, mae modd gweld a yw ardal ymhlith 10 y cant o ardaloedd "gwaethaf" ar gyfer y dangosydd am oedolion heb gymwysterau, ac yna cymharu hyn â safle'r ardal yn erbyn dangosydd arall fel amddifadedd cyflogaeth.

Yn gryno, y dull nodweddiadol yw:

- Graddio ACEHI (1-1909) yn ôl gwerthoedd y dangosyddion a ddewiswyd, o’r mwyaf difreintiedig i’r lleiaf difreintiedig.
- Penderfynu ar gategori i’w ddefnyddio a dynodi categori ar gyfer pob AGEHI e.e. os ydych yn defnyddio degraddau, byddai’r categori cyntaf (10 y cant uchaf mwyaf difreintiedig) yn cynnwys yr ACEHI sydd wedi’u graddio o 1-191 gan amlaf.
- Os oes gwerthoedd cyfartal (e.e. mae gan yr ACEHI â graddfeydd 191 a 192 yr un gwerth ar gyfer y dangosydd) yna caiff ACEHI eu neilltuo i’r categori mwy difreintiedig gan amlaf (felly byddai AGEHI sydd â graddfa 192 yn ein henghraifft yn cael ei chynnwys yn ein “10 y cant uchaf”).

Mae rhai o’r mathau o ddadansoddiadau sy’n bosibl wedyn yn cynnwys:

- Mapiau thematig, gan ddefnyddio graddliwiau gwahanol ar gyfer pob categori.
- Cyflwyno ACEHI mewn tabl yn ôl dau gategori gwahanol e.e. daw faes amddifadedd gwahanol, neu ddangosydd ar ddau gyfnod amser gwahanol.
- Plot blwch o werthoedd dangosyddion yn ôl categori, er enghraifft, plotio lledaeniad cyfraddau troseddau treisgar o fewn categorïau o amddifadedd yn y maes incwm.
- Ar ôl paru ACEHI ag Awdurdodau Lleol (neu ardaloedd mwy eraill), tablu cyfran yr ACEHI sydd ym mhob categori.
- Cyflwyno boxplot o ymlediad o werthoedd ar gyfer ACEHI fesul awdurdod lleol.

## Dadansoddi dros amser

Mae Rhan 3.3 yn cyfeirio at y gallu i gymharu dangosyddion dros amser, ac mae rhagor o wybodaethyn nhablau’r Atodiad a mewn dogfennau MALIC ategol eraill am newidiadau i ddiffiniadau dangosyddion.

Yn aml, mae newidiadau i ddiffiniadau dangosyddion yn golygu nad oes modd cymharu data dros amser a bod yn fanwl gywir. Fodd bynnag, er y dylid cymryd gofal wrth ddehongli newidiadau absoliwt mewn gwerthoedd dangosyddion, mae’n bosibl dadansoddi newidiadau cymharol dros amser o hyd. Er enghraifft, er mwyn cymharu amddifadedd cymharol rhwng 2011 a 2014, gall defnyddwyr grwpio ACEHI i ddegraddau yn ôl y data dangosydd perthnasol, ac edrych ar yr ardaloedd hynny sydd wedi symud i fyny neu i lawr ddegraddau. Felly gallwn dybio bod ardal sydd wedi symud o’r trydydd degradd (20-30 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig) yn 2011 i’r degradd gyntaf (10 y cant uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig) yn 2014 wedi gwaethygu o ran, er enghraifft, ei amddifadedd incwm plant cymharol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio peidio cymharu rhengoedd unigol dros gyfnod o amser, gan eu bod yn fesur cymharol.

Er nad yw rhaniadau oedran manwl ar gael cyn MALIC 2014, roedd rhywfaint o ddata dangosydd ar gyfer plant wedi ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Mynegeion Plant MALIC 2008 a 2011, ar gael trwy StatsCymru fel y disgrifir yn adran 2. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data dangosyddion plant hŷn â data o 2014 neu’n ddiweddarach. Gallai diffiniadau data dangosyddion ar gyfer plant ar gyfer y blynyddoedd cyn 2014 fod yn wahanol i’r grwpiau oedran a roddir o 2014 ymlaen (e.e. 0-15 a 0-18), felly dylai defnyddwyr ddarllen nodiadau perthnasol yn nogfennau MALIC wrth gymharu dros amser.

## 9. Astudiaeth achos

Dyma astudiaeth achos; enghraifft o broblem y gellid ei datrys drwy ddadansoddi data MALIC. Gadewch i ni gymryd y cwestiwn dychmygol canlynol:

> *“Rwy’n gyfrifol am ddyrannu cyllid i glybiau ar ôl ysgol ar gyfer plant ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle mae gennym 7 clwb o’r fath ar hyn o bryd. Mae gen i grant ychwanegol y gellir ei roi i 2 o’r clybiau hyn. Hoffwn ei roi i 2 glwb mewn ardaloedd lle mae lefel isel o gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant ysgol gynradd, yn ogystal â lefel uchel o amddifadedd incwm. Fyddaf i’n gallu defnyddio MALIC i wneud hyn?”*


Dyma’r camau ar gyfer cynnal y dadansoddiad hwn. Dywedwch fod gennym ni restr o gyfeiriadau’r saith clwb hyn. Rydym yn defnyddio adnodd rhyngweithiol MALIC i chwilio am eu lleoliad, a gweld a ydynt yn un o’r ACEHI canlynol:

1. W01001012
2. W01001050
3. W01001004
4. W01001002
5. W01001038
6. W01001037
7. W01000981

Ar ôl ystyried yn ofalus pa ddangosyddion sydd yn berthnasol i'r pwrpas penodol hwn, rydym yn defnyddio StatsCymru i lawrlwytho set ddata y gallwn ei chyflwyno ar ffurf y tabl canlynol:

| ACEHI | Amddifadedd Incwm plant oed 5-9 (canran) | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---:|---:|
| W01000981 | 39 | 78.6 |
| W01001002 | 32 | 75.6 |
| W01001050 | 20 | 80.7 |
| W01001004 | 20 | 82.3 |
| W01001038 | 14 | 85.4 |
| W01001012 | 9 | 86.3 |
| W01001037 | 6 | 83.1 |

Gallwn blotio'r canlyniadau hyn mewn siart far i'w dadansoddi'n hawdd:




Mae'n amlwg bod gan y ddwy AGEHI gyntaf uchod (W01000981 a W01001002) y lefelau uchaf o amddifadedd incwm a'r sgoriau pwyntiau cyfartalog isaf yn CA2. Ar sail ei ddymuniadau, dylai'r unigolyn a gyflwynodd y cwestiwn ystyried dyrannu'r arian i'r ddau glwb yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y dadansoddiad yn defnyddio lleoliad y clwb yn hytrach na chyfeiriadau cartref y plant sy'n ei fynychu. Felly, yn yr enghraifft hon, gellir defnyddio MALIC fel canllaw, ond ni ddylid anwybyddu gwybodaeth leol.

## 10. Cynlluniau'r dyfodol

### Data dangosyddion

Cyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf o MALIC ar 27 Tachwedd 2014, ynghyd â data dangosyddion ategol. Fel rhan o'n diweddariadau blynyddol ar gyfer data dangosyddion, aethom ati i ddiweddaru data dangosyddion MALIC a ryddhawyd yn ystod 2015 ar StatsCymru ym mis Mai 2016, data a ryddhawyd yn 2016 ym mis Rhagfyr 2016 (ac Ebrill 2017 ar gyfer rhai dangosyddion Diogelwch Cymuedol), a data a ryddhawyd yn 2017 ym mis Rhagfyr 2017 (a Ionawr 2018 ar gyfer dangosyddion amddifadedd incwm, pwysau geni isel, a chyfradd marwolaethau). Fel yn y blynyddoedd cynt, byddwn yn blaenoriaethu'r data dangosyddion sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn (e.e. ddim yn diweddaru'r dangosyddion Mynediad i Wasanaethau bob blwyddyn oherwydd eu bod yn drwm ar adnoddau), gan ystyried pa mor ddefnyddiol y mae'n debygol o fod a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gwaith.

### Rhifyn nesaf o MALIC

Yn 2016 cynhaliwyd arolwg i gael adborth oddi wrth ddefnyddwyr ynghylch pryd y dylid cyhoeddi'r diweddariad Mynegai nesaf. Mae Adroddiad Arolwg Amseru MALIC nawr ar gael ar ein gwefan. Ar sail yr adborth i'r arolwg byddwn yn gweithio ar gyhoeddi diweddariad llawn i'r Mynegai yn 2019.

Byddwn yn croesawu adborth ar holl gynhyrchion MALIC, yn cynnwys yr ystod o setiau data dangosyddion sydd ar gael. Gallwch gysylltu â ni drwy

ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

## Nodiadau ar ddefnyddio erthyglau ystadegol

Yn gyffredinol, mae erthyglau ystadegol yn ymwneud â dadansoddiadau unigol lle nad oes diweddariadau wedi'u trefnu ar eu cyfer, yn y tymor byr o leiaf, a'u diben yw gwneud dadansoddiadau o'r fath ar gael i gynulleidfa ehangach na fyddai'n bosibl fel arall. Maent yn cael eu defnyddio'n bennaf i gyhoeddi dadansoddiadau sy'n archwiliadol mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- Cyflwyno cyfres arbrofol newydd o ddata;
- Dadansoddiad rhannol o fater sy'n rhoi man cychwyn defnyddiol ar gyfer ymchwil bellach ond sy'n ddadansoddiad defnyddiol ynddo'i hun;
- Tynnu sylw at ymchwil a wnaed gan sefydliadau eraill, a gomisiynwyd gan naill ai Lywodraeth Cymru neu fel arall, lle mae'n ddefnyddiol i dynnu sylw at y casgliadau, neu i adeiladu ymhellach ar yr ymchwil;
- Dadansoddiad lle na fydd y canlyniadau o ansawdd mor uchel o bosibl â'r rhai yn ein cyhoeddiadau a bwletinau ystadegol rheolaidd, ond lle gellir dod i gasgliadau ystyrlon o'r canlyniadau o hyd.

Lle mae ansawdd yn peri problem, gall hyn godi yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- gallu nodi'n gywir y cyfnod amser a ddefnyddiwyd (fel y gall ddigwydd wrth ddefnyddio ffynhonnell weinyddol);
- ansawdd y ffynhonnell ddata neu'r data a ddefnyddiwyd;
- rhesymau penodol eraill.

Fodd bynnag, bydd lefel yr ansawdd yn golygu nad yw'n effeithio'n sylweddol ar y casgliadau. Er enghraifft, efallai na fydd yr union gyfnod amser yn ganolog i'r casgliadau y gellir eu gwneud, neu mai trefn maint y canlyniadau, yn hytrach na'r union ganlyniadau, sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa.

Nid yw'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn Ystadegyn Cenedlaethol, ond efallai ei fod yn seiliedig ar gynnyrch Ystadegau Cenedlaethol a bydd wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i archwilio'n fanwl cyn ei gyhoeddi. Bydd asesiad o'r cryfderau a'r gwendidau yn y dadansoddiad yn cael ei gynnwys yn yr erthygl, er enghraifft cymariaethau â ffynonellau eraill, ynghyd â chanllawiau ar sut y gellid defnyddio'r dadansoddiad, a disgrifiad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

Mae'r arferion cyhoeddi fel y'u diffinnir gan y protocol arferion cyhoeddi yn berthnasol i'r erthyglau, ac felly, er enghraifft, maent yn cael eu cyhoeddi ar ddyddiad sy'n cael ei gyhoeddi ymlaen llaw yn yr un modd â chynhyrchion ystadegol eraill. Mae symbolau gwerth coll a ddefnyddir yn yr erthygl yn dilyn y safonau a ddefnyddir mewn cynhyrchion ystadegol eraill, fel yr amlinellir isod.

| | |
|---|---|
| .. | Nid yw'r eitem ddata ar gael |
| . | Nid yw'r eitem ddata'n gymwys |
| - | Nid yw'r eitem ddata yn union sero, ond fe'i hamcangyfrifir yn sero neu lai na hanner y digid terfynol a ddangosir. |
| * | Mae angen datgelu'r eitem ddata neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi. |

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir yn wahanol.

# Atodiad

## Tabl 1: Rhestr o Ddangosyddion ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ers Rhifyn 2008

| Parth | Enw (Diweddaraf) | 2008 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | Grwpiau oedran (2014 ymlaen) | Cymaroldeb dros amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm | Amddifadedd Incwm (Canran y Boblogaeth) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | 0-4; 5-9; 10-15; 16-18; 19-24; 25-34; 35-44; 45-54; 55-64; 65-74; Dros 75. Hefyd 0-15, 0-18, 16-64, 65+. | Yn weddol gymharol - effeithir arno gan newidiadau i'r system les |
| | Budd-daliadau cysylltiedig ag Incwm - Mynegai Plant | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | |
| Cyflogaeth | Budd-daliadau cysylltiedig â chyflogaeth (% poblogaeth oedran gweithio) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | 16-18; 19-24; 25-29; 30-34; 35-39; 40-44; 45-49; 50-54; 55-59; 60-64 | Yn weddol gymharol - effeithir arno gan newidiadau i'r system les |
| Iechyd | Mynychder canser (cyfradd fesul 100,000) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Nid yn gymharol a bod yn fanwl gywir |
| | Y gyfradd marwolaethau (cyfradd fesul 100,000) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Nid yn gymharol a bod yn fanwl gywir |
| | Pwysau Geni Isel (%) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Yn gymharol |
| | Salwch Hirdymor Cyfyngus (cyfradd fesul 100,000) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | 0-4, 5-9, 10-15, 16-18; 19-24 yna grwpiau oedran 5 mlynedd hyd at 85+. Hefyd 0-15, 0-18, 16-64, 65+. | Nid yn gymharol |
| | Salwch Hirdymor Cyfyngus - Mynegai Plant | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | |
| Addysg | Absenoliaeth mynych ysgol gynradd (%) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Absenoliaeth mynych ysgol uwchradd (%) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Yn gymharol i fyny at ddata a gyhoeddwyd yn 2016 |
| | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 3 | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Sgôr pwyntiau wedi'i chapio Cyfnod Allweddol 4 | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Yn gymharol |
| | Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 Cynwysedig (%) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Yn gymharol |
| | Pobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd ymlaen i Addysg | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn gymharol |
| | Oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau (%) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn weddol gymharol |
| | Absenoliaeth mynych (%) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Cynradd ac Uwchradd | Yn gymharol |

## Tabl 1: Rhestr o Ddangosyddion ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ers Rhifyn 2008 (parhad)

| Parth | Enw (Diweddaraf) | 2008 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | Grwpiau oedran (2014 ymlaen) | Cymaroldeb dros amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad i Wasanaethau | Cyfartaledd amser teithio preifat i siop fwyd (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i feddygfa meddyg teulu (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i ganolfan hamdden (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i lyfrgell gyhoeddus (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i orsaf betrol (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i fferyllfa (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i swyddfa’r post (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i ysgol gynradd (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio preifat i ysgol uwchradd (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i siop fwyd (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i feddygfa meddyg teulu (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i ganolfan hamdden (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i lyfrgell gyhoeddus (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i fferyllfa (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i swyddfa’r post (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i ysgol gynradd (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i ysgol uwchradd (munudau) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Nid ar hyn o bryd |
| | Cyfartaledd amser teithio i ddeintydd (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio i siop fwyd (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio i feddygfa meddyg teulu (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio i ganolfan hamdden (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio i lyfrgell gyhoeddus (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio i swyddfa'r post (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio i ysgol gynradd (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio i ysgol uwchradd (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Cyfartaledd amser teithio cyhoeddus i nodau trafnidiaeth (munudau) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |

## Tabl 1: Rhestr o Ddangosyddion ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ers Rhifyn 2008 (parhad)

| Parth | Enw (Diweddaraf) | 2008 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | Grwpiau oedran (2014 ymlaen) | Cymaroldeb dros amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch Cymunedol | Canran y troseddwyr sy'n oedolion (%) | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodir gan yr heddlu (cyfradd fesul 100) | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | | Yn gymharol |
| | Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu (cyfradd fesul 100) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | | Yn gymharol |
| | Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu (cyfradd fesul 100) | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | | Yn weddol gymharol |
| | Tanau (cyfradd fesul 100) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Yn gymharol |
| | Lladrad a gofnodir gan yr heddlu (cyfradd fesul 100) | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | | Yn weddol gymharol |
| | Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu (cyfradd fesul 100) | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | | Yn weddol gymharol |
| | Canran y troseddwyr ifanc (%) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn rhannol gymharol |
| Yr Amgylchedd Ffisegol | Ansawdd Aer (hyd at 2013)/Ansawdd aer - Crynodiadau aer (2014 ymlaen) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn weddol gymharol |
| | Ansawdd aer - Allyriadau aer (is-faes ansawdd aer) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn weddol gymharol |
| | Perygl o Lifogydd (sgôr rhwng 0 a 100) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn gymharol |
| | Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | Yn gymharol |
| Tai | Cartrefi heb wres canolog (%) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | 0-4, 5-9, 10-15, 16-18; 19-24 yna grwpiau oedran 5 mlynedd hyd at 85+. Hefyd 0-15, 0-18, 16-64, 65+. | Yn weddol gymharol |
| | Cartrefi heb wres canolog - Mynegai Plant (%) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | |
| | Cartrefi gorlawn (%) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | 0-4, 5-9, 10-15, 16-18; 19-24 yna grwpiau oedran 5 mlynedd hyd at 85+. Hefyd 0-15, 0-18, 16-64, 65+. | Nid yn gymharol - newidwyd i fesur ystafelloedd gwely ar gyfer 2014 |
| | Cartrefi heb wres canolog - Mynegai Plant (%) | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | | |

## Tabl 3: Cyfnodau cyfeirio ar gyfer data Dangosyddion MALIC blynyddol

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg byr o gyfnodau cyfeirio ar gyfer pob blwyddyn o gyhoeddi data dangosyddion MALIC. Am fanylion pellach gweler yr adroddiadau technegol ar gyfer MALIC 2008, 2011 and 2014 (Saesneg yn unig).

| Parth | Dangosydd | 2008 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | Budd-daliadau cysylltiedig ag Incwm | 2006/07 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2015-16 | 2016-17 |
| | Pobl sy'n derbyn credydau treth | Awst 2005 | Awst 2009 | Awst 2010 | Awst 2011 | Awst 2012 | Awst 2013 | Awst 2014 | Awst 2015 |
| | Cheiswyr lloches a gynorthwyir | Meh 2007 | Rhag 2010 | Rhag 2011 | Awst 2012 | Sep 2014 | Meh 2015 | Gorff 2016 | Meh 2017 |
| | Pobl ar Gredyd Cynhwysol | | | | | | | 2015-16 | 2016-17 |
| **Cyflogaeth** | Budd-daliadau cysylltiedig â chyflogaeth | 2006/07 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2015-16 | 2016-17 |
| | Budd-dal analluogrwydd / lwfans Anabledd Difrifol | 2006/07 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2015-16 | 2016-17 |
| | Y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Ifanc | 2005 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | | | | |
| | Y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol | 2005 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | | | | |
| | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth | | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2015-16 | 2016-17 |
| | Pobl ar Gredyd Cynhwysol | | | | | | | 2015-16 | 2016-17 |
| **Iechyd** | Salwch Hirdymor Cyfyngus | 2001 | 2001 | | | 2011 | | | |
| | Y gyfradd marwolaethau | 1997 i 2006 | 2001 i 2009 | 2002 i 2011 | 2003 i 2012 | 2004 i 2013 | 2005 i 2014 | 2006 i 2015 | 2007 i 2016 |
| | Mynychder canser | 1996 i 2005 | 2000 i 2009 | 2001 i 2010 | 2002 i 2011 | 2003 i 2012 | 2004 i 2013 | 2005 i 2014 | 2006 i 2015 |
| | Pwysau Geni Isel | 1997 i 2006 | 2001 i 2009 | 2002 i 2011 | 2003 i 2012 | 2004 i 2013 | 2005 i 2014 | 2006 i 2015 | 2007 i 2016 |
| **Addysg** | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 | 2005, 2006, 2007 | 2008, 2009, 2010 | 2009, 2010, 2011 | 2010, 2011, 2012 | 2010/11 i 2012/13 | 2011/12 i 2013/14 | 2012/13 i 2014/15 | 2013/14 i 2015/16 |
| | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 3 | 2005, 2006, 2007 | 2008, 2009, 2010 | 2009, 2010, 2011 | 2010, 2011, 2012 | | | | |
| | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 | 2005, 2006 | 2009, 2010 | 2009, 2010, 2011 | 2010, 2011, 2012 | | | | |
| | Absenoliaeth mynych ysgol gynradd | 2005/06 i 2006/07 | 2008/09 i 2009/10 | 2008/09 i 2010/11 | 2009/10 i 2011/12 | | | | |
| | Absenoliaeth mynych ysgol uwchradd | 2004/05 i 2006/07 | 2008/09 i 2009/10 | 2008/09 i 2010/11 | 2009/10 i 2011/12 | | | | |
| | Pobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd ymlaen i Addysg Uwch | 1998 i 2005 | 1998 i 2005 | | | 2005/06 i 2010/11 | | | |
| | Oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau | 2001 | 2001 | | | 2011 | | | |
| | Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 Cynwysedig | | | | | 2010/11 i 2012/13 | 2011/12 i 2013/14 | 2012/13 i 2014/15 | 2013/14 i 2015/16 |
| | Sgôr pwyntiau wedi'i chapio Cyfnod Allweddol 4 | | | | | 2010/11 i 2012/13 | 2011/12 i 2013/14 | 2012/13 i 2014/15 | 2013/14 i 2015/16 |
| | Absenoliaeth mynych | | | | | 2010/11 i 2012/13 | 2011/12 i 2013/14 | 2012/13 i 2014/15 | 2013/14 i 2015/16 |
| **Tai** | Cartrefi heb wres canolog | 2001 | 2001 | | | 2011 | | | |
| | Cartrefi gorlawn | 2001 | 2001 | | | 2011 | | | |
| **Yr Amgylchedd** | Ansawdd aer - Crynodiadau aer | 2006 | 2008 | 2009 | 2010 | 2012 | | | |
| **Ffisegol** | Ansawdd aer - Allyriadau aer | 2005 | 2008 | 2009 | 2010 | 2012 | | | |
| | Perygl o Lifogydd | 2007 | 2009 | | | 2014 | | | |
| | Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff/Diwydiannol | 2007 | 2010 | | | 2014 | | | |
| **Mynediad i** | Amser teithio cyhoeddus i siop fwyd | 2007/08 | 2007/08 | | | 2013/14 | | | |
| **Wasanaethau** | Amser teithio cyhoeddus i feddygfa meddyg teulu | 2007/08 | 2007/08 | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio cyhoeddus i fferyllfa | | | | | 2013/15 | | | |
| | Amser teithio cyhoeddus i ysgol gynradd | 2007/08 | 2007/08 | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio cyhoeddus i swyddfa'r post | 2007/08 | 2007/08 | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio cyhoeddus i lyfrgell gyhoeddus | 2007/08 | 2007/08 | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio cyhoeddus i ganolfan hamdden | 2007/08 | 2007/08 | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio i ddeintydd | 2007/08 | 2007/08 | | | | | | |
| | Amser teithio cyhoeddus i ysgol uwchradd | 2007/08 | 2007/08 | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio cyhoeddus i nodau trafnidiaeth | 2007/08 | 2007/08 | | | | | | |
| | Amser teithio preifat i siop fwyd | | | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio preifat i feddygfa meddyg teulu | | | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio preifat i fferyllfa | | | | | 2013/15 | | | |
| | Amser teithio preifat i ysgol gynradd | | | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio preifat i swyddfa'r post | | | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio preifat i lyfrgell gyhoeddus | | | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio preifat i ganolfan hamdden | | | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio preifat i orsaf betrol | | | | | 2013/14 | | | |
| | Amser teithio preifat i ysgol uwchradd | | | | | 2013/14 | | | |
| **Diogelwch** | Canran y troseddwyr sy'n oedolion | 2005-06 i 2006-07 | 2008-09 i 2009-10 | 2009 i 2011 | | | | | |
| **Cymunedol** | Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu | | 2008-09 i 2009-10 | 2009 i 2011 | 2010 i 2012 | 2012-13 i 2013-14 | | 2014-15 i 2015-16 | |
| | Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu | | 2008-09 i 2009-10 | 2009 i 2011 | | 2012-13 i 2013-14 | | 2014-15 i 2015-16 | |
| | Lladrad a gofnodir gan yr heddlu | | 2008-09 i 2009-10 | 2009 i 2011 | | 2012-13 i 2013-14 | | 2014-15 i 2015-16 | |
| | Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu | | 2009-10 | 2009 i 2011 | | 2012-13 i 2013-14 | | 2014-15 i 2015-16 | |
| | Canran y troseddwyr ifanc | 2005-06 i 2006-07 | 2008-09 i 2009-10 | | | | | | |
| | Troseddau a gofnodir gan yr heddlu | 2005-06 i 2006-07 | | | | | | | |
| | Tanau | 2005 i 2006 | 2009-10 i 2010-11 | 2010-11 i 2011-12 | 2011-12 i 2012-13 | 2012-13 i 2013-14 | 2013-14 i 2014-15 | 2014-15 i 2015-16 | 2015-16 i 2016-17 |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol | | | | | Jul12 i Jun14 | | 2014-15 i 2015-16 | |

Lle defnyddir - y mae'n dynodi blwyddyn ariannol e.e. mae 2015-16 yn dynodi'r flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2015 i Fawrth 2016

Lle defnyddir / y mae'n dynodi blwyddyn academaidd e.e. mae 2015/16 yn dynodi'r flwyddyn academaidd o fis Medi 2015 i Orffennaf 2016

Mae rhywfaint o'r data lle defnyddir / yn seiliedig ar frasamcan o flwyddyn academaidd. Mae hyn yn digwydd pan oedd y data mwyaf diweddar oedd ar gael o ddiwedd un flwyddyn a dechrau un arall.

## Tabl 4: Camau Rheoli Datgelu a Gymhwyswyd i Ddata ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014

| Parth | Dangosydd | Camau rheoli datgelu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | MALIC 2011 | | MALIC 2014 | |
| | | Cymhwyswyd | Dull | Cymhwyswyd | Dull |
| **Incwm** | Dangosydd cyfansawdd amddifadedd incwm | Gan LIC | | Yn y ffynhonnell (AGPh) | Peth atal wedi'i gymhwyso gan LIC |
| **Cyflogaeth** | Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig â gwaith | Gan LIC | | Yn y ffynhonnell (AGPh) | |
| **Iechyd** | Mynychder canser | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal |
| | Salwch hirdymor cyfyngus | Gan LIC | | Yn y ffynhonnell (SYG) | |
| | Pwysau geni isel | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal |
| | Y gyfradd marwolaethau | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal |
| **Addysg** | Sgôr pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 | Gan LIC | Talgrynnu | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Sgôr pwyntiau wedi'i chapio Cyfnod Allweddol 4 | Gan LIC | Talgrynnu | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 Cynwysedig | Ddim yn MALIC 2011 | | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Absenoliaeth mynych | Dangosydd cyfunol ddim yn MALIC 2011 | | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Pobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd ymlaen i Addysg Uwch | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Yn y ffynhonnell (SYG) | |
| **Mynediad i Wasanaethau** | Siop fwyd | | | Na | |
| | Meddygfa Meddyg Teulu | | | Na | |
| | Ysgol Gynradd | | | Na | |
| | Ysgol Uwchradd | | | Na | |
| | Swyddfa'r post | | | Na | |
| | Llyfrgell gyhoeddus | | | Na | |
| | Canolfan hamdden | | | Na | |
| | Fferyllfa | | | Na | |
| | Gorsaf betrol (trafnidiaeth breifat yn unig) | | | Na | |

## Tabl 4: Camau Rheoli Datgelu a Gymhwyswyd i Ddata ar gyfer MALIC 2011 a MALIC 2014

| Parth | Dangosydd | Camau rheoli datgelu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | MALIC 2011 | | MALIC 2014 | |
| Diogelwch Cymunedol | Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Lladrad a gofnodir gan yr heddlu | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Tanau | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Na | Talgrynnu |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodir gan yr heddlu | Ddim yn MALIC 2011 | | Gan LIC | Atal a thalgrynnu |
| | Canran y troseddwyr sy'n oedolion | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Na | Talgrynnu tebygoliaeth |
| | Canran y troseddwyr ifanc | Gan LIC | Talgrynnu tebygoliaeth | Na | Talgrynnu tebygoliaeth |
| Yr Amgylchedd Ffisegol | Perygl o Lifogydd | Na | | Na | |
| | Ansawdd aer - Allyriadau aer | Na | | Na | |
| | Ansawdd aer - Crynodiadau aer | Na | | Na | |
| | Agosrwydd at Safleoedd Gwaredu Gwastraff a Safleoedd Diwydiannol | Na | | Na | |
| Tai | Cartrefi gorlawn (mesur ystafelloedd gwely) | Talgrynnu | | Yn y ffynhonnell (SYG) | |
| | Cartrefi heb wres canolog | Talgrynnu | | Yn y ffynhonnell (SYG) | |

**Tabl 5: Newidiadau AGEHI rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2011**

| AGEHI 2001 | Awdurdod lleol | Enw AGEHI 2001 | AGEHI 2011 | Enw AGEHI 2011 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| W01000045 | Gwynedd | Aberdaron | W01001932 | Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog | U |
| W01000046 | Gwynedd | Aberdyfi | W01001933 | Aberdyfi / Bryn-crug / Llanfihangel | U |
| W01000055 | Gwynedd | Botwnnog a Thudweiliog | W01001932 | Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog | U |
| W01000058 | Gwynedd | Bryn-crug/Llanfihangel | W01001933 | Aberdyfi / Bryn-crug / Llanfihangel | U |
| W01000120 | Conwy | Abergele Pen-sarn | W01001927 | Abergele Pensarn 1 | R |
| W01000120 | Conwy | Abergele Pen-sarn | W01001928 | Abergele Pensarn 2 | R |
| W01000160 | Conwy | Llansanffraid 1 | W01001926 | Llansanffraid | U |
| W01000161 | Conwy | Llansanffraid 2 | W01001926 | Llansanffraid | U |
| W01000357 | Wrecsam | Dyffryn Ceiriog 1 | W01001930 | Dyffryn Ceiriog 3 | U |
| W01000358 | Wrecsam | Dyffryn Ceiriog 2 | W01001930 | Dyffryn Ceiriog 3 | U |
| W01000421 | Wrecsam | Smithfield | W01001929 | Smithfield 2 | R |
| W01000421 | Wrecsam | Smithfield | W01001931 | Smithfield 3 | R |
| W01000435 | Powys | Crughywel 1 | W01001903 | Crughywel | X |
| W01000436 | Powys | Crughywel 2 | W01001904 | Llangatwg a Glangrwyne | X |
| W01000437 | Powys | Cwm-twrch | W01001899 | Cwm-twrch | X |
| W01000462 | Powys | Llangatwg | W01001904 | Llangatwg a Glangrwyne | X |
| W01000463 | Powys | Llan-gors a Bwlch | W01001905 | Llangors, Bwlch a Grwyne | X |
| W01000468 | Powys | Llanrhaeadr-ym-Mochnant | W01001906 | Llanrhaeadr-ym-Mochnant | X |
| W01000469 | Powys | Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin | W01001907 | Llansilin | X |
| W01000490 | Powys | St John 1 | W01001901 | St John 1 | X |
| W01000491 | Powys | St John 2 | W01001902 | St John 2 | X |
| W01000495 | Powys | Tal-y-bont ar Wysg | W01001897 | Tal-y-bont ar Wysg | X |
| W01000514 | Ceredigion | Aberystwyth Gogledd | W01001934 | Penglais | U |
| W01000520 | Ceredigion | Borth 1 | W01001937 | Y Borth | U |
| W01000521 | Ceredigion | Borth 2 | W01001937 | Y Borth | U |
| W01000526 | Ceredigion | Faenor 2 | W01001934 | Penglais | U |
| W01000530 | Ceredigion | Llanbadarn Fawr - Padarn a Llanbadarn Fawr - Sulien | W01001935 | Llanbadarn Fawr De | R |
| W01000530 | Ceredigion | Llanbadarn Fawr - Padarn a Llanbadarn Fawr - Sulien | W01001936 | Llanbadarn Fawr Gogledd | R |

**Tabl 5: Newidiadau AGEHI rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2011 (parhad)**

| AGEHI 2001 | Awdurdod lleol | Enw AGEHI 2001 | AGEHI 2011 | Enw AGEHI 2011 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| W01000661 | Sir Gaerfyrddin | Glanymôr 3 | W01001923 | Glanymor 3 | R |
| W01000661 | Sir Gaerfyrddin | Glanymôr 3 | W01001924 | Glanymor 4 | R |
| W01000668 | Sir Gaerfyrddin | Hengoed (Sir Gaerfyrddin) 2 | W01001925 | Hengoed 2 | U |
| W01000669 | Sir Gaerfyrddin | Hengoed (Sir Gaerfyrddin) 3 | W01001925 | Hengoed 2 | U |
| W01000743 | Abertawe | Castell 2 | W01001955 | Castell 2 Gogledd | R |
| W01000743 | Abertawe | Castell 2 | W01001958 | Castell 2 De | R |
| W01000748 | Abertawe | Castell 7 | W01001938 | Castell 7 Dwyrain | R |
| W01000748 | Abertawe | Castell 7 | W01001957 | Castell 7 Gorllewin | R |
| W01000780 | Abertawe | Cilâ Gogledd 1 | W01001956 | Cilâ 3 | U |
| W01000783 | Abertawe | Cilâ De 2 | W01001956 | Cilâ 3 | U |
| W01000972 | Castell-nedd Port Talbot | Ystalyfera 1 | W01001900 | Ystalyfera 1 | X |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001918 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 1 | R |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001919 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 4 | R |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001920 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 5 | R |
| W01000988 | Pen-y-bont ar Ogwr | Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr 1 | W01001921 | Bryntirion Laleston a Merthyr Mawr 6 | R |
| W01001074 | Bro Morgannwg | Castleland 2 | W01001910 | Castleland 2G | R |
| W01001074 | Bro Morgannwg | Castleland 2 | W01001911 | Castleland 2H | R |
| W01001163 | Rhondda Cynon Taf | Gartholwg 2 | W01001915 | Gartholwg 2 | R |
| W01001163 | Rhondda Cynon Taf | Gartholwg 2 | W01001916 | Gartholwg 3 | R |
| W01001254 | Rhondda Cynon Taf | Tonyrefail - Gorllewin 2 | W01001914 | Tonyrefail Gorllewin 2 | R |
| W01001254 | Rhondda Cynon Taf | Tonyrefail - Gorllewin 2 | W01001917 | Tonyrefail Gorllewin 4 | R |
| W01001323 | Merthyr Tudful | Faenor 1 | W01001898 | Faenor 1 | X |
| W01001544 | Sir Fynwy | Castell Cil-y-coed 2 | W01001908 | Llanddewi | U |
| W01001547 | Sir Fynwy | Croesonnen | W01001909 | Croesonen | U |
| W01001550 | Sir Fynwy | Llanddewi a Green Lane 1 | W01001908 | Llanddewi | U |
| W01001570 | Sir Fynwy | Y Maerdy 1 | W01001909 | Croesonen | U |
| W01001656 | Casnewydd | Maerun 1 | W01001912 | Maerun 4 | R |
| W01001656 | Casnewydd | Maerun 1 | W01001913 | Maerun 5 | R |

**Tabl 5: Newidiadau AGEHI rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2011 (parhad)**

| AGEHI 2001 | Awdurdod lleol | Enw AGEHI 2001 | AGEHI 2011 | Enw AGEHI 2011 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| W01001700 | Caerdydd | Butetown 2 | W01001942 | Butetown 3 | R |
| W01001700 | Caerdydd | Butetown 2 | W01001950 | Butetown 6 | R |
| W01001700 | Caerdydd | Butetown 2 | W01001952 | Butetown 8 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001940 | Butetown 2 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001943 | Butetown 4 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001944 | Butetown 5 | R |
| W01001701 | Caerdydd | Butetown 3 | W01001951 | Butetown 7 | R |
| W01001723 | Caerdydd | Cathays 6 | W01001922 | Cathays 9 | R |
| W01001723 | Caerdydd | Cathays 6 | W01001939 | Cathays 10 | R |
| W01001723 | Caerdydd | Cathays 6 | W01001941 | Cathays 11 | R |
| W01001763 | Caerdydd | Grangetown 5 | W01001945 | Grangetown 10 | R |
| W01001763 | Caerdydd | Grangetown 5 | W01001947 | Grangetown 12 | R |
| W01001763 | Caerdydd | Grangetown 5 | W01001946 | Grangetown 11 | R |
| W01001801 | Caerdydd | Llanisien 11 | W01001949 | Llanishen 11 | R |
| W01001801 | Caerdydd | Llanisien 11 | W01001953 | Llanishen 12 | R |
| W01001845 | Caerdydd | Radur 1 | W01001948 | Radur a Thremorgan 3 | R |
| W01001845 | Caerdydd | Radur 1 | W01001954 | Radur a Thremorgan 4 | R |

U = uniad, R = rhaniad, X = newid cymhleth=

Mae mwy o wybodaeth am newidiadau i ffiniau daearyddol rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011 ar gael ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Saesneg yn unig).

**Tabl 6: Cofnod o Ddiwygiadau i ddata Dangosyddion MALIC**

| **Dyddiad** | **Manylion y diwygiad** |
|---|---|
| 12/08/15 | Sylwodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gamgymeriad yn y data dangosyddion incwm yr oeddent wedi'i ddarparu ar gyfer parth incwm MALIC 2014 sy'n golygu bod rhywfaint o'r data ar gredydau treth wedi'i hepgor yn ddamweiniol. |
| 17/11/15 | Ar ôl diwygio'r data Dangosyddion Incwm 2014 uchod, yn sgil ymchwiliad pellach sylwyd bod camgymeriadau tebyg yn effeithio ar ddata Dangosyddion Incwm 2012 a 2013. |
| 09/02/16 | Cafodd y ddaearyddiaeth wledig a threfol ei hailgyhoeddi ar gyfer data dangosyddion cyn 2014 oherwydd addasiad i wella cywirdeb y data. |